# MORGAN HEN ab OWEN (bu farw 975) brenin Morgannwg

**Enw:** Morgan Hen ab Owen
**Dyddiad marw:** 975
**Rhiant:** Owain ap Hywel
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** brenin Morgannwg
**Maes gweithgaredd:** Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Thomas Jones Pierce

yr Hywel ap Rhys, sylfaenydd llinach newydd yng ngorllewin Morgannwg tua diwedd y 9fed ganrif. Yr oedd Morgan, a ddilynodd ei dad Owain c. 930, yn agos ei gyswllt â pholisi cyfeillgarwch â'r frenhiniaeth Sacsonaidd, a ddilynwyd gan Hywel Dda, a pharhaodd ar delerau da â'r Saeson am ychydig flynyddoedd o leiaf wedi marw Hywel. Yn ei ddyddiau ef yr oedd Morgannwg yn cynnwys Gwent unwaith yn rhagor (gweler Morgan Mwynfawr), er darfod colli rhai tiroedd ar y gorllewin a aeth yn eiddo i Ddyfed. Bu farw mewn oedran teg, a phasiodd ei frenhiniaeth i'w ddisgynyddion hyd nes y cymerwyd Morgannwg gan Gruffydd ap Llywelyn oddi ar Meurig, ei or-or- yr.

## Awdur

**Yr Athro Thomas Jones Pierce**, (1905 - 1964)

## Ffynonellau


J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest* (London 1911), Cyf. II

*The Text of the Book of Llan Dâv* (Oxford 1893)


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Morgan Hen ab Owain

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q2421950


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu